**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into Implementation of education reforms**

**IER 05**

**Ymateb gan: Llywodraeth Cymru**

**Response from: Welsh Government**

---

## Cyflwyniad

Mae'r system anghenion dysgu nchwanegol (ADY) yn ganolog i greu system addysg gynhwysol ac i ddiwygio'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) yng Nghymru. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Deddf ADY) yn elfen graidd o'r diwygiadau hyn.

Cyhoeddwyd y Cod ADY ym mis Mawrth 2021 ac aeth yn fyw ym mis Medi 2021. Y garreg filltir nesaf yn yr amserlen ddeddfwriaethol yw mis Medi 2022, pan fydd gorchmynion yn darparu ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY erbyn mis Awst 2024.

Dim ond dechrau'r daith ddiwygio yw'r broses o gychwyn y Ddeddf ADY, sy'n ceisio creu system sy'n diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc yn well. Ochr yn ochr â'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd byddwn yn bwrw ymlaen â'n huchelgeisiau trawslywodraethol i leihau anghydraddoldebau a bylchau cyrhaeddiad, gan drawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae plant yn symud o'r hen system AAA i'r system ADY newydd rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2024 a bydd pobl ifanc sy'n mynd i addysg ôl-16 eisoes ar y system ADY o fis Medi 2023 ymlaen. Cafodd y dull gweithredu ei lywio gan safbwyntiau rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus[1] ar sut y dylid gweithredu Deddf ADY. Canfu'r ymgynghoriad bod cefnogaeth gadarn i fandadu dull graddol o weithredu'r system ADY, ac mai amserlenni cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo grwpiau penodol o blant i'r system ADY fyddai'r dull mwyaf hylaw a chyson.

Er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r system ADY, bu rhaglen drawsnewid yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi, datblygu'r gweithlu, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gweithiodd Arweinwyr Trawsnewid Rhanbarthol gyda phartneriaid cyflawni a sefydliadau addysg i helpu gwasanaethau i baratoi ar gyfer y newidiadau ac i ddatblygu arferion gwaith aml-asiantaeth a thraws-sector agosach. Roedd hyn yn cyd-

[1] Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

daro â'r gwaith o greu rolau statudol newydd mewn awdurdodau lleol, ysgolion a'r gwasanaeth iechyd, rhaglen o godi ymwybyddiaeth, a datblygu a dysgu proffesiynol.

## Beth yw'r Ddeddf ADY a beth y disgwylir iddi ei gyflawni?

Mae Deddf ADY[2] yn creu:

a) fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau ag ADY, a phobl ifanc ag ADY yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB);
b) proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
c) system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn, sefydlwyd un ar ddeg o nodau craidd, lle mae'r darpariaethau o fewn Deddf ADY wedi'u datblygu.

- Cyflwyno'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- Ystod oedran 0 i 25
- Un system ddeddfwriaethol
- Cynllun unedig
- Mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan
- Dyheadau uchel a deilliannau gwell
- System symlach a llai gwrthwynebol
- Mwy o gydweithio
- Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach
- Hawliau apelio clir a chyson
- Cod gorfodol
- System ddwyieithog

## Cerrig milltir gweithredu allweddol

- Ar 4 Ionawr 2021: dechreuodd y dyletswyddau o dan y Ddeddf i ddynodi staff i'r rolau statudol a oedd yn cynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar a'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (SACDA). Roedd cael rolau statudol yn eu swyddi cyn y system newydd yn rhoi arbenigedd ychwanegol a goruchwyliaeth strategol i gyrff statudol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r diwygiadau ADY.

- Ar 1 Medi 2021: cychwynnodd y system ADY ar gyfer pob plentyn hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY neu sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY ar neu ar ôl 1 Medi 2021. Dechreuodd hefyd ar gyfer plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 11 a gedwir yn gaeth.

[2] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

- Ar 1 Ionawr 2022: dechreuodd y Ddeddf ADY ar gyfer grŵp arall o blant - y rhai hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig (SEP) drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion. Rhwng mis Ionawr 2022 a mis Awst 2022, roedd yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol symud plant a oedd yn perthyn i'r blynyddoedd canlynol: Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.

- Mawrth 2022: penderfynwyd[3] estyn y flwyddyn gyntaf o weithredu gan flwyddyn arall. Mae hyn yn golygu mai mis Awst 2023 yw'r adeg olaf ar gyfer symud plant ym Mlynyddoedd Meithrin 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 i'r system ADY, yn hytrach na mis Awst 2022 (nid yw hyn yn effeithio ar y dyletswyddau a osodir ar ysgolion ac awdurdodau lleol i symud plant i'r system ADY mewn ymateb i gais penodol gan blentyn, neu ei riant, i symud y plentyn i'r system ADY yn y cyfamser). Roedd hyn mewn ymateb i effaith covid a oedd yn tarfu’n barhaus ar gyrff sy'n gyfrifol am symud plant o'r system AAA i'r system ADY a'r angen am fwy o amser er mwyn sicrhau pontio trefnus.

- O fis Medi 2022: bydd y Ddeddf ADY yn dod i rym ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 ym mlwyddyn ysgol 2022/23 nad oeddent wedi'u cynnwys yn y grwpiau uchod. Bydd y plant hyn yn symud i'r system ADY newydd yn ystod blwyddyn ysgol 2022/23 a blwyddyn ysgol 2023/24. Mae'r manylion wedi'u nodi yn y Canllaw i Ymarferwyr[4].

- O fis Medi 2023: bydd y grŵp blwyddyn hynaf a fydd wedi cael ei symud i'r system ADY (sef y rhai ym Mlwyddyn 10 yn Ystod y flwyddyn ysgol 2021/22) yn trosglwyddo i addysg ôl-16.

**Cynnydd hyd yn hyn**

Cychwyn

Mae plant wedi dechrau cael eu cynllun datblygu unigol (CDU) cyntaf, ynghyd â'r holl hawliau cysylltiol a grëwyd gan Ddeddf ADY. Mae hyn yn dipyn o gamp i'r sector yng ngoleuni'r oedi a'r galw arnynt o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Cefnogi'r sector

[3] Datganiad Ysgrifenedig: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – Gweithredu (23 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU
[4] Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: canllaw i ymarferwyr

Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r gwaith o weithredu'r system ADY. Mae hyn yn cynnwys canllaw technegol[5] a chanllaw i ymarferwyr[6] ar weithredu'r Ddeddf ADY. Bydd canllawiau pellach i rieni a phlant i egluro sut y caiff y Ddeddf ADY ei rhoi ar waith yn cael eu cyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Rhwng 2018 a 2022, ariannodd Llywodraeth Cymru bum Arweinydd Trawsnewid ADY i roi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflawni eraill wrth baratoi ar gyfer y broses o newid i'r system ADY newydd a'i rheoli. Cynhaliwyd arolygon parodrwydd ysgolion i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio gwelliannau ysgol gyfan.

Cyflwynodd yr Arweinwyr Trawsnewid ADY ystod eang o wybodaeth a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth er mwyn helpu i bontio'n effeithiol.

Datblygu'r gweithlu

Cyflwynodd Arweinwyr Trawsnewid agenda datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol a rennir ar gyfer partneriaid cyflawni allweddol. Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol helaeth i ysgolion ar draws rhanbarthau, a modiwlau dysgu wedi'u targedu at rolau arwain penodol o fewn sectorau perthnasol.

Darparwyd Llwybr Dysgu Proffesiynol ADY Cenedlaethol, gan gynnwys dysgu cydnabyddedig a/neu achrededig, yn ystod hydref 2021. Datblygwyd hwn gan Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Trawsnewid, awdurdodau lleol, consortia gwella ysgolion, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Mae'r holl hyfforddiant ac adnoddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canolbwyntiodd datblygu'r gweithlu ar dair lefel o ddatblygu sgiliau ar gyfer ymarferwyr addysg: sgiliau craidd i bob ymarferydd gyflwyno'r system ADY newydd; sgiliau uwch drwy rôl cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a; datblygu sgiliau arbenigol drwy hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol sydd ar gael i leoliadau/ysgolion addysg, megis grant synhwyraidd nam ar y golwg neu nam ar y clyw.

Mae'r rhan fwyaf o CADY wedi cymryd rhan mewn llu o weithgareddau dan arweiniad clwstwr i rannu arferion da, yn ogystal â sesiwn ddysgu ADY i'r rhai sydd â rolau statudol[7]. Mae awdurdodau lleol wedi cael cymorth i ddarparu hyfforddiant i ysgolion ar ddatblygu CDUau effeithiol.

[5] Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu (2021 i 2022)
[6] Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: canllaw i ymarferwyr
[7] Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): hyfforddiant ar-lein i ymarferwyr mewn rolau statudol

Mae cwrs hyfforddi ADY rhyngweithiol ar Hwb[8] yn helpu'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno'r system i ddeall y dyletswyddau deddfwriaethol newydd, a'r hawliau y mae'n eu darparu i blant, eu rhieni/gofalwyr, a phobl ifanc.

Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi'i chynllunio i baratoi athrawon dan hyfforddiant i feithrin ystafelloedd dosbarth cynhwysol, ac mae cefnogi dysgwyr ag ADY yn rhan o astudiaethau craidd athro dan hyfforddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Prifysgol Caerdydd i hyfforddi a darparu bwrsariaethau ar gyfer 10 myfyriwr Seicolegydd Addysg dan hyfforddiant newydd y flwyddyn ar y Ddoethuriaeth tair blynedd. Bydd cytundeb contractiol newydd o fis Medi 2023 ymlaen yn sicrhau bod myfyrwyr yn aros yng Nghymru ar ôl graddio, er mwyn helpu i gadw arbenigedd a gwella'r gronfa dalent.

<u>Ariannu Trawsnewid</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £35m o gyllid craidd hyd yma i baratoi'r seilwaith gyda chyllideb flynyddol o £21m tan 2025 i helpu i ddiwygio'r system a chynyddu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Darparwyd £20m arall i ysgolion a cholegau yn 2020/21 a 2021/22 i gefnogi dysgwyr ADY dan anfantais oherwydd y pandemig.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer y system ADY newydd a symud iddi. Mae hyn yn cydnabod costau pontio sy'n gysylltiedig â symud plant o'r system AAA bresennol i'r system newydd. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau'r gweithlu addysg i helpu i feithrin gallu a sicrhau y gellir diwallu anghenion dysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau addysg.

**Edrych i'r dyfodol**

<u>Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY</u>: mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r sector ac wedi sefydlu Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY i ddod â phartneriaid cyflawni allweddol a rhanddeiliaid o'r sector ynghyd. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, ysgolion a'r trydydd sector, i ddarparu gwybodaeth am gyfeiriad strategol, a chyngor i gefnogi'r gwaith o weithredu diwygiadau'n barhaus. Bydd y grŵp yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu trefniadau gweithredu cadarn, gan nodi risgiau a chyfleoedd ac annog cydweithrediad a chydweithio rhwng asiantaethau.

<u>Arweinwyr Gweithredu Cenedlaethol</u>: mae tri Arweinydd Gweithredu newydd yn cael eu recriwtio i ddarparu cymorth strategol cenedlaethol i'r sector ar weithredu'r Gymraeg ac addysg bellach. Byddant yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt hanfodol rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni i wrando ar brofiadau ymarferwyr, rhieni a phlant a phobl

[8] Cwrs e-ddysgu: Cyflwyniad i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd yng Nghymru

ifanc i ddeall effaith y diwygiadau ADY. Mae'r rolau hyn yn adeiladu ar y gwaith sylweddol a wneir gan Arweinwyr Trawsnewid a byddant yn gweithredu ar ôl troed cenedlaethol.

Canllawiau ar leoliadau arbenigol ôl-16: bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a sicrhau lleoliadau mewn sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol ar gyfer y rhai sydd wedi symud i'r system ADY. Mae canllawiau i awdurdodau lleol ar drefniadau ariannu ar gyfer y lleoliadau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a darperir cymorth pellach wrth iddynt ddechrau ymgymryd â'u dyletswyddau. Bydd y grŵp cyntaf o bobl ifanc o dan y system ADY yn trosglwyddo i addysg ôl-orfodol ym mis Medi 2023.

Ymgysylltu â rhieni, plant a phobl ifanc: bydd grant trydydd sector yn darparu sesiynau cyfathrebu ac ymgysylltu i gryfhau cyfranogiad dysgwyr, gan wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o weithredu parhaus a sicrhau bod llais dysgwyr a rhieni yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisi ADY.

**Heriau**

Dim ond newydd ddechrau mae ein taith o ddiwygio ADY ac mae problemau a heriau'n cael eu datrys ar y cyd â phartneriaid. Ymhlith y meysydd gwaith allweddol mae:

Cysondeb o ran dehongli: fel gydag unrhyw ddiwygiad mawr, mae cyrff sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf ADY yn dal i geisio deall manylion eu cyfrifoldebau cyfreithiol newydd. Rydym yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth glir ac yn cysylltu â'n partneriaid cyflawni i liniaru risgiau camddehongli a chefnogi gweithredu.

Cyllid: mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol[9] yn nodi’r disgwyliadau ar gyfer y system ADY i arwain at leihad mewn costau parhaus o ganlyniad i gefnogi ymyrraeth gynnar, mwy o gyfranogiad gan blant, eu teuluoedd, a phobl ifanc, a hefyd yn sgil datrys anghydfodau'n gynnar er mwyn lleihau anghydfodau a heriau cyfreithiol sy'n ychwanegu cost a baich sylweddol o fewn y system AAA bresennol.

Mae cyllid ychwanegol wedi cefnogi'r cyfnod pontio o'r system AAA i’r system ADY. Bydd y Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY yn ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar gyllid.

Yr Iaith Gymraeg: rydym yn cydnabod bod prinder adnoddau Cymraeg ar gyfer ADY a phrinder athrawon ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Arweinydd Gweithredu ADY Cymraeg ei iaith yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i fapio darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Mae arweinydd ychwanegol yn rheoli dull rhanbarthol a lleol cydgysylltiedig o ddarparu Cynllun y Gymraeg yn y Gweithlu Addysg. Mae gwaith ar y gweill hefyd i sicrhau cytundeb trwyddedu ar gyfer fersiynau Cymraeg o adnoddau ADY, megis prawf dyslecsia ac adnoddau therapi lleferydd ac iaith.

[9] Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Rhifau ADY yng Nghymru: mae casgliad y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) eleni wedi gweld gostyngiad o 20% yn nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt AAA neu ADY mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru ers y llynedd. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r gostyngiad hwn, gan herio hyn os yw'n berthnasol a cheisio sicrwydd bod disgyblion ag ADY yn cael eu dynodi a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Ar hyn o bryd, rydym yn deall mai'r rheswm am y newid hwn yw bod ysgolion yn adolygu eu cofrestrau AAA er mwyn adlewyrchu'n gywir nifer y plant sydd ag AAA/ADY, yn ogystal â dynodi eto y rhai y nodwyd bod ganddynt Anawsterau Dysgu Cyffredinol. Mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym fod mwy o ddisgyblion yn cael eu cefnogi drwy addysgu rheolaidd, yn hytrach na thrwy Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol (roedd dysgwyr Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn arfer cael eu diffinio fel AAA).

## Ymchwil a Gwerthuso

Mae rhaglen ymchwil pedair blynedd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, i werthuso'r system ADY newydd yn erbyn y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys asesu effeithiolrwydd, nodi unrhyw rwystrau a hwyluswyr i weithredu a gwireddu manteision. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni a dysgwyr i fesur eu profiadau o'r diwygiadau ar eu hanghenion addysg a chymorth hyd yma.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/2095/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Gorffennaf 2022

Annwyl Jayne,

Dyma fy Adroddiad Blynyddol ar Weithredu'r Cwricwlwm. Rwy’n bwriadu ei gyhoeddi ar 1 Gorffennaf.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu ein gwerthusiad o’r sefyllfa bresennol o ran diwygio; y camau rydym yn eu cymryd i gefnogi ysgolion ac mae’n edrych tua’r dyfodol a’r broses gyflwyno. Roedd yr adroddiad hwn yn ymrwymiad a wnaed gan y Llywodraeth yn ystod hynt Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ystod y Senedd ddiwethaf. Y broses hon o adrodd yn flynyddol fydd ein prif ddull o roi gwybodaeth newydd i’r Senedd ynghylch gweithredu’r cwricwlwm. Rwy’n cynnig mai’r adroddiad hwn hefyd fydd y papur tystiolaeth a gyflwynir cyn imi ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Gorffennaf.

Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor maes o law ar agweddau o’r gwaith diwygio yr hoffech eu gweld yn cael eu trafod yn fwy manwl yn yr adroddiadau blynyddol dilynol, yn enwedig o ystyried gwaith craffu parhaus y Pwyllgor ar weithredu’r cwricwlwm.

Rwyf hefyd yn anfon copïau o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus oherwydd eu diddordeb mewn darparu adnoddau parhaus ar gyfer diwygio’r cwricwlwm.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.